



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

5 Mai 2020

Annwyl

Cwyn mewn cysylltiad â Chais am Wybodaeth – cyfeirnod ATISN 13750

Ysgrifennoch atom i gwyno am y ffordd yr oeddem wedi ymdrin â Chais Rhyddid Gwybodaeth ATISN 13750. Rwyf wedi arwain adolygiad mewnol ar sail y pwyntiau a godwyd gennych, ac wedi penderfynu bod y penderfyniad gwreiddiol i beidio â datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn gywir.

Roedd eich cwyn yn dadlau na ddylai'r holl wybodaeth a oedd yn ymwneud â'ch cais ddod o dan adran 35(1)(a) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac nad oedd angen 'man diogel' ar gyfer yr wybodaeth hon. Ystyriwyd y dadleuon hyn yn fy adolygiad, gan fanteisio ar y cyngor perthnasol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Teimlais bod angen cael 'man diogel' ar gyfer yr wybodaeth sy'n destun i'ch cais o hyd, yn enwedig y trafodaethau sylweddol am ffocws a nodau'r Adroddiad. Canfu fy adolygiad fod cysylltiad annatod rhwng y sgysiau comisiynu hyn a thrafodaethau polisi ehangach sy'n dal yn fyw iawn heddiw.

Er bod adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi cyfrannu at y drafodaeth polisi hon, nid yw wedi rhoi ateb clir i unrhyw un o'r cwestiynau y

mae'r Gweinidogion a'u swyddogion yn eu hystyried. Mae'r drafodaeth bolisi yn y maes hwn yn parhau i fynd rhagddi, ac mae nifer o'r materion a drafodwyd yn y broses gomisiynu yn rannau allweddol o'r broses o ffurfio polisi.

Mae rhywfaint o'r wybodaeth yng nghwmpas eich cais hefyd yn ymwneud â'r gwaith o ffurfio rhaglen waith ehangach Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Mae'r broses hon yn sensitif tu hwnt, ac mae'n cynnwys trafodaethau polisi cychwynnol mewn amryw o feysydd pwysig a meysydd sy'n datblygu.

O weld cwmpas anferthol a chymhlethdod y maes polisi nawdd cymdeithasol a'r pynciau yr ymdrinnir â nhw yng nghynllun gwaith Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, rwy'n credu bod dadl gref dros gael man trafod diogel er budd y cyhoedd o dan adran 35(1)(a). Mae'n rhaid i swyddogion gael hyn er mwyn iddynt allu cynnal trafodaeth agored, onest a manwl am yr opsiynau sydd ar gael a'r effeithiau posibl er mwyn cyflawno'r canlyniadau gorau posibl i bobl Cymru.

Mae'n bwysig hefyd osgoi'r 'effaith oeri' ar drafodaethau polisi. Mae'r Gweinidogion a'u swyddogion yn cynnal sgysiau cymhleth ac amlweddol ar amrywiaeth o faterion bob dydd, ac mae angen trafodaethau gonest a chyfrinachol ar lawer o'r rhain oherwydd sensitifrwydd a chymhlethdod y materion dan sylw. Mae rhedeg Llywodraeth effeithiol yng Nghymru yn ddibynnol ar allu'r rhai sy'n cymryd rhan i fedru trafod yn hyderus ac agored.

Os bydd y man cyfrinachol hwn yn cael ei beryglu, bydd ansawdd cyngor polisi a phenderfyniadau hefyd mewn perygl. Er bod tryloywder ac atebolrwydd yn eithriadol o bwysig, mae angen cydbwyso hyn â'r angen i'r sgysiau hyn fod yn gwbl agored a gonest. Os collir hyn, y canlyniad fydd llai o arloesi, llai o ymchwil a chanlyniadau polisi llai effeithiol.

Mae'n werth nodi hefyd bod llawer o wybodaeth ar y pwnc hwn eisoes ar gael yn gyhoeddus. Mae adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ei hun, yn ogystal â chofnodion ac argymhellion ymchwiliad diweddar Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Senedd i fudd-daliadau yng Nghymru ar gael ar-lein. Mae swyddogion yn datblygu ymateb i'r argymhellion hyn, a fydd hefyd yn hysbys i'r cyhoedd unwaith y bydd yn barod i'w gyhoeddi.

O ystyried yr holl faterion uchod, credaf y gellir cyfiawnhau bod y penderfyniad gwreiddiol i beidio â datgelu a chyhoeddi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, a hynny o dan adran 35(1)(a) o'r Ddeddf yn gwbl gywir.

Os ydych yn dal yn anfodlon â'r ymateb mae gennych hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dyma'r manylion cyswllt:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane

Wilmslow
Swydd Caer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745
Ffacs: 01625 524 510
E-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Hefyd, os ydych yn teimlo bod achos o gamweinyddu wedi digwydd wrth ymdrin â'ch cais, mae gennych opsiwn i gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Dyma'r manylion cyswllt:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
Pen-y-bont ar Ogwr
CF35 5LJ

Ffôn: 0845 6010987 (pris galwad leol)
E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru

Diolch yn fawr,